| | |
|---|---|
| **CYFARFOD GRŴP IECHYD A DIOGELWCH APCAP**<br>**14eg Ebrill 2026**<br>14:00 | |
| **Yn bresennol:** Tegryn Jones (TJ), Sara Morris (SM), Joy Arkley (JA), Libby Taylor (LT), Michelle Webber (MW), Tom Iggleden (TI), Jessica Morgan (JM), James Parkin (JP), Kate Attrill (KA), | |
| 1 | **Ymddiheuriadau:** Kate Gravell (KG), Andrew Muskett (AM), Emma Gladstone (EG) Marie Parkin (MP) |
| 2 | **Cytuno ar Gofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Ionawr 2026.**<br><br>**Asesiadau Risg Tân,** a yw'r rhain i gyd wedi'u cwblhau? JM i wirio gydag Andrew Muskett.<br><br>**A yw'r cam Hyfforddiant Codi'n Fwy Diogel a neilltuwyd i Tom Iggleden wedi'i gwblhau?** Cadarnhaodd JA, ar ôl cael gair â TI, eu bod wedi cytuno y dylai ganolbwyntio ar y tîm Cefn Gwlad gan fod nifer sylweddol o ddatganiadau o ddiddordeb wedi bod o bob rhan o'r Awdurdod. Aeth JA rhagddo i ddweud ein bod wedi bod yn gweithio'n ddiweddar ar fatrics hyfforddiant Iechyd a Diogelwch fydd yn edrych ar faterion 'codi a chario' y tu allan i'r tîm cefn gwlad i benderfynu ar y modd mwyaf effeithiol ac effeithlon o ddiwallu'r anghenion hynny am hyfforddiant. Gofynnodd TJ a allai'r grŵp hwn gael golwg ar y matrics hwnnw ar gyfer y cyfarfod nesaf.<br><br>**Cynrychiolwyr Staff:** Cadarnhaodd JA nad oedd unrhyw eitemau gan y Cynrychiolwyr Staff i'w codi. Dywedodd TJ y byddai'n dda cael cynrychiolydd staff ac o bosibl cynrychiolydd o'r Twristiaeth Adfywiol yn y cyfarfod nesaf.<br><br>Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod ar 13 Ionawr 2026. |
| 3 | **Damweiniau a Digwyddiadau Ionawr – Mawrth 2026**<br>Gofynnodd TJ a oedd unrhyw batrymau o ddigwyddiadau. A oedd unrhyw beth y dymunai unrhyw un ei godi ynghylch pryderon diogelwch ffyrdd ar dripiau ysgol.<br>Amlinellodd LT y digwyddiad a'r amrywiol fesurau diogelwch sy'n bodoli ar hyn o bryd mewn perthynas â chyfrifoldebau staff ac ysgolion. Roedd LT yn mynd i ysgrifennu at y Pennaeth.<br>TJ: Llif ar goll, y tro diwethaf roedd oriawr ar goll, sut allwn ni golli llif? Eglurwyd bod y Rheolwr Gweithrediadau Cefn Gwlad yn edrych ar system archebu i mewn ac allan ar gyfer offer a chyfarpar. Gofynnodd JP a ydym yn monitro digwyddiadau yn ehangach yn y parc cenedlaethol gan ein bod mewn gwirionedd wedi cael marwolaeth, efallai y bydd angen i ni drafod hyn, ond fel grŵp llai. Gofynnodd TJ a oedd JP yn fodlon arwain ar hyn? Eglurodd LT mai tir y Weinyddiaeth Amddiffyn oedd dan sylw, nid ein tir ni. Ychwanegodd JP ein bod wedi hwyluso'r mynediad, a'i fod yn hapus i arwain ar hyn.<br><br>**Camau gweithredu: JP i sefydlu is-grŵp.** |
| 4. | **Iechyd, Salwch a Llesiant Staff**<br><br>Dywedodd TJ bod salwch yn uwch yn ystod misoedd y gaeaf, ac y byddai'n dda cael cymhariaeth â'r flwyddyn flaenorol.<br><br>Dywedodd JA ein bod wedi cael nifer o anafiadau y tu allan i'r gwaith sy'n gysylltiedig â chwaraeon yn ystod y misoedd diwethaf. Er bod rhywfaint o'r absenoldeb salwch yn absenoldeb i'w briodoli i salwch meddwl, nid oedd yr un ohonynt yn salwch sy'n gysylltiedig â gwaith. |
| 5 | **Hyfforddiant a Datblygu**<br><br>Dywedodd TJ y gallai fod yn achos o raddfa'r graff, ond ymddengys bod ein ffigur diogelu yn isel. Roedd y gyfradd gwblhau yn 95%.<br><br>**Camau gweithredu: JA i glustnodi pwy sydd angen cwblhau'r hyfforddiant.** |

| | |
|---|---|
| 6 | **Safonau Diogelwch Ymwelwyr**<br><br>Roedd JP wedi edrych drwy'r dogfennau blaenorol ar ôl gweld yr eitem hon ar yr agenda, a bod y cofnodion yn dangos y dylem gyfuno hyn â'r polisi Iechyd a Diogelwch, nid gofyn am un ar wahân. Gofynnodd TJ a oedd angen i ni edrych ar hyn mewn dwy ffordd ar wahân, sef lle'r ydym yn uniongyrchol gyfrifol a lle mae gennym ddylanwad.<br><br>Roedd LT yn cytuno bod angen i ni wahaniaethu yn yr asesiad risg rhwng staff ac ymwelwyr, yn yr un modd ag yr ydym yn gwahaniaethu er enghraifft mewn achos o strimio, sef rhwng y person sy'n strimio a phobl Freshwater East sy'n cerdded ar draws y tir. Dywedodd TJ ei bod yn glir iawn y byddai ein perchnogaeth tir a'r blaendraeth yn cael eu dosbarthu yr un fath. Fodd bynnag, nid yw hawliau tramwy cyhoeddus yr un peth, nid ni yw perchennog y tir.<br><br>Yr Is-grŵp i edrych ar Ddiogelwch Ymwelwyr ac fel rhan o'u brîff i edrych ar y digwyddiad o ddringo yn Sant Govan.<br><br>**Camau gweithredu: JP i Sefydlu is-grŵp.** |
| 7 | **Polisi Gweithio ar eich Pen eich Hun**<br><br>Cadarnhaodd TJ bod y polisi hwn wedi cael ei drafod a'i gytuno yn gynharach y diwrnod hwnnw mewn cyfarfod o'r tîm Rheoli, a bod pawb yn bresennol yn y cyfarfod hwnnw, felly nid oedd unrhyw beth arall i'w ychwanegu. |
| 8 | **Diffoddydd Tân mewn Cerbydau'r Awdurdod**<br>Eglurodd JA bod diffyg cysondeb, i bob golwg, a bod rhai cerbydau â dyfais diffodd tân, a bod angen sefydlu'r rhesymeg. A ddylem eu cyflenwi neu beidio?<br>Eglurodd JM nad yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith i gael diffoddydd tân mewn cerbyd, ond bod hynny yn arfer da.<br>TJ: Os nad oes gennym y dyfeisiau hyn, nid oes cyfrifoldeb ar y staff i'w defnyddio.<br>MW: Mae hyn yn fater sydd wedi'i adolygu, os nad ydym yn eu defnyddio, wedyn nid yw'n broblem.<br>LT: Rydym wedi'u defnyddio i ddiffodd tanau glaswellt ar raddfa fach, ond bod eu cynnal a'u cadw yn broblem. Nid oes barn gref gennyf y naill ffordd na'r llall ar hyn cyn belled â'n bod yn parhau i fod yn gyson. MW: Mae'r wardeniaid yn cario ychydig bach o danwydd, felly mae diffoddydd ganddynt.<br>KA: Rwyf wedi clywed am ddigwyddiadau mewn cerbydau trydan lle nad yw'r ffenestri yn gweithio. Mae offer ar gael i dorri'r gwydr.<br>TJ: Fel arfer da, a allwn gael gwybodaeth gan rywun megis ROSPA, ac wedyn cyflwyno'r wybodaeth gerbron y Tîm Rheoli.<br>**Camau gweithredu: JA i ddilyn hyn ymhellach ac adrodd yn ôl i'r Tîm Rheoli.** |
| 9 | **Pecynnau Cymorth Cyntaf mewn Cerbydau'r Awdurdod**<br><br>JA: Nid oes gan bob cerbyd becyn cymorth cyntaf. TJ: Byddai pecyn gan y swyddfa, y depo, dim ond estyniad o hynny fyddai ei angen. Rwy'n credu bod pecynnau eisoes gan y Parcmyn a'r Wardeniaid. Byddwn yn gyffredinol yn tybio bod gan bob cerbyd flwch cymorth cyntaf sylfaenol.<br><br>**Camau gweithredu: JA i gael gwybodaeth am yr offer Cymorth Cyntaf sydd yng ngherbydau'r Awdurdod.** |

| | |
|---|---|
| 10 | **Tramperi Oriel y Parc**<br><br>JP: Mae tramperi ar gael ar y tri safle, fodd bynnag, yng Nghastell Henllys a Chaeriw, dim ond ar y safle y caniateir eu defnyddio, mae rhestr cynefino ar gael, mae dau achos wedi digwydd yng Nghastell Henllys, a ymchwiliwyd yn llawn.<br><br>Yn OYP caniateir cymryd y tramperi allan yn eu cerbydau eu hunain. Nid ydym wedi cael unrhyw ddigwyddiadau, ond credaf nad yw'n wasanaeth y mae angen i ni ei ddarparu.<br><br>JP: Os gofynnwch i'r tîm, mae'n wasanaeth poblogaidd iawn. Barnaf bod y risgiau yn rhy uchel.<br><br>TJ: Dim goblygiadau ar ein hamrywiaeth ehangach o gerbydau symudedd.<br><br>Gofynnodd LT a oedd yn bosibl cael gair gydag Angela Robinson i weld a oes unrhyw bartneriaeth allai eu cymryd drosodd. JA: Rydym eisoes wedi siarad ag Angela, sy'n hapus i gymryd drosodd y gwaith gweinyddol. Rwy'n cytuno â James, ychydig iawn o fecanweithiau rheoli sydd mewn lle ac maent yn cael eu defnyddio y tu allan i'r Ganolfan Ymwelwyr yn wahanol i'r lleill sydd wedi'u lleoli yng Nghaeriw ac yng Nghastell Henllys.<br><br>TJ: Beth am gael gwared arnynt?<br><br>JP: Heb edrych mor bell â hynny.<br><br>**Camau Gweithredu: JP i gysylltu â'r swyddog priodol yn OYP ynghylch rhoi'r gorau i'r gwasanaeth a dod â'r gwasanaeth i ben.** |
| 11 | **Asesiadau Risg, Staff yn llofnodi a chofnodi**<br><br>LT: Diben hyn oedd profi bod y staff wedi darllen yr Asesiadau Risg. Roedd Pete wedi rhoi'r system ar Parcnet. Ffurflen Microsoft, dewis un, dyddiad y darllenwyd, a'i lanlwytho i daenlen Excel.<br><br>Ymatebodd TJ, er bod y system yn fiwrocrataidd, y byddai'n beth da pe baem yn defnyddio'r system hon.<br><br>**Camau gweithredu: LT i rannu'r cyfarwyddyd.** |
| 12 | **Rheoli Asesu Risg – Cymhwyso'r drefn ar draws yr Awdurdod**<br><br>JA: Mae rhai asesiadau risg gennyf i'w hadolygu, sy'n berthnasol i'r Awdurdod cyfan, a allem ffurfio is-grŵp neu ai fy nghyfrifoldeb i yw hyn, fy mod innau yn gwneud yr asesiadau, ac wedyn yn eu rhannu â'r grŵp.<br><br>TJ: yn fy marn i os yw'r asesiad yn eich enw chi, eich cyfrifoldeb chi yw'r asesiad. Ac os yw yn eich enw chi, chi sy'n gyfrifol am wneud yr asesiad yn y modd mwyaf effeithlon. |
| 13. | **Asesiadau Risg sydd heb eu hadolygu**<br><br>TJ: Mae gennym 130 o Asesiadau Risg, 19 heb fod yn gyfredol. Dymuniad MW oedd eu hadolygu fesul cam gydol y flwyddyn. Ymatebodd TJ, fel rhan o'r adolygiad, y dylid newid dyddiad yr adolygiad. Dywedodd LT bod yr asesiadau trydan ac offer wedi'u gwneud ond nid oeddent ar SharePoint eto. |
| 14. | **Adborth Cynrychiolydd/ Grŵp Staff** |
| 15 | **Unrhyw fater arall**<br><br>MW: Er gwybodaeth, cylchlythyr HSE wedi'i ddosbarthu, lle nodir digwyddiadau allanol o gloddio o gwmpas ceblau trydan, enghraifft o arfer gorau.<br><br>TJ: Diolch, mae'r HSE yn dda iawn am dynnu sylw at faterion o ddiddordeb.<br><br>Daeth y cyfarfod i ben am 15:20. |
| 16. | **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf 14eg o Orffennaf 2026** |